Mae ysgrifennydd y Clwb Rygbi wedi drafftio llythyr at yr aelodau a'u teuluoedd ond mae angen iddo ddarllen drwyddo'n ofalus gan fod nifer o gamgymeriadau ynddo.

**Clwb Rygbi'r Cwm, Y Cwm, LL23 7 TY**

Mawrth 21

Annwyl Gyfaill

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i ymuno a ni ar drip arbennig i Gaerdydd ym mis mai. Fel rydych chi'n gwybod, bydd tîm rygbi Cymru'n chwarae yn erbyn tîm cenedlaethol Seland Newydd, sef yr All Blacks, ar brynhawn Sadwrn, Mai 10 ac felly, byddwn yn mynd i lawr ar y nos Wener (Mai 9) ac yn dychwelyd ar y dydd Sul (Mai 11).

Mae tîm yr All Blacks ymhlith timau gorau'r byd - os nad y tîm gorau! Dyma'r tîm enillodd Gwpan Rygbi'r Byd yn 2011, wrth gwrs?

Wedi dweud hynny, rhaid cofio bod tîm Cymru wedi curo'r All Blacks - neu'r Crysau Duon - yn y gorffennol. Mae rhai blynyddoedd wedi mynd heibio ers hynny ond allwn ni ond gobeithio y ..................... nhw'n llwyddo i wneud hynny unwaith eto! Mae'n bwysig ein bod ni'n mynd i gefnogi'n chwaraewyr.

Dyma fanylion y daith i Gaerdydd:

Mai 9: Bydd y bws yn gadael yr orsaf am 6 o'r gloch.
Mai 10: Bore rhydd. Bydd y gêm yn dechrau am 2.00 y prynhawn.
Mai 11: Bore rhydd. Byddwn ni'n gadael Caerdydd am 2.00 ac yn aros am fwyd ar y ffordd adre.

Byddwn ni'n aros yn Canolfan y Mileniwm, Caerdydd - yng Ngwersyll yr Urdd. Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am y ganolfan, ewch i urdd.org.

Os ydych chi eisiau dod, cysylltwch â fi os gwelwch yn dda. Dyma .......... manylion):

Ffôn: 0786 444 8765
e-bost: daismith@rygbi.com

Gobeithio y bydd digon ............ eisiau mynd ar y daith i Gaerdydd. Os na chawn ni ddigon o enwau i lenwi bws, bydd rhaid i ni drefnu mynd mewn ceir.

Hwyl am y tro.

Dai Smith
(Ysgrifennydd y Clwb Rygbi)